

# CABINET

## DYDD LLUN, 28 TACHWEDD 2022

**PRESENNOL** Cyngorydd D. Price (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

C.A. Davies

L.D. Evans

G. Davies

P.M. Hughes

G.H. John

A. Lenny

J. Tremlett

A. Vaughan Owen

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

E.G. Thomas

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

J. Jones, Pennaeth Adfywio

C. Higginson, Media Manager

L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (cymeryd cofnodion)

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.34 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Lenny	6. Strategaeth Arloesi Lleol	Mae perthynas agos yn gweithio i gwmni a nodwyd yn yr adroddiad.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 14 TACHWEDD 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022 yn gywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## **5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## **6. STRATEGAETH ARLOESI LLEOL**

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd A. Lenny wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y cyfarfod tra bod ystyriaeth yn cael ei rhoi iddi a phleidlais yn cael ei chynnal yn ei chylch].

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar gynigion y Cyngor i fabwysiadu Strategaeth Arloesi Lleol i gefnogi adferiad ac ailstrwythuro economi Sir Gaerfyrddin drwy gyfleoedd arloesi ym meysydd Arloesi Digidol, Iechyd, yr Economi Sylfaenol a'r Economi Gylchol.

Roedd y strategaeth yn manylu ar y rhagolygon o ran arloesedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin yng nghyd-destun y sefyllfa bolisi ar wahanol lefelau, ynghyd â'r fframwaith lleol a rhanbarthol ar gyfer arloesi.

Cyfeiriwyd at y ffigurau a gyflwynwyd ar dudalennau 37 a 39 yr adroddiad ynghylch y sector amaethyddiaeth, a allai newid o ganlyniad i'r cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad mewn perthynas â'r cynllun ffermio cynaliadwy ar ôl Brexit.

Pwysleisiwyd i'r aelodau fod y newid tuag at ddull model busnes economi gylchol yn fodd o wella effeithlonrwydd o ran adnoddau, cydweithio a chystadleurwydd.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 Cymeradwyo'r Strategaeth Arloesi Lleol.**

**6.2 Cytuno ar y pedwar cyfle arloesi a nodwyd yn y strategaeth, yn y meysydd canlynol: Digidol; Iechyd a Llesiant; yr Economi Sylfaenol; a'r Economi Gylchol.**

**6.3 Bod y swyddogion yn archwilio'r cyfleoedd arloesi ymhellach i'w gweithredu lle bo modd.**

## **7. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2022 I MEDI 30AIN 2022**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad diweddar ar weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 30 Medi 2022.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y dangosydd cysylltiad â'r gyfradd log wedi cael ei gynyddu o 125.00% i 150.00% er mwyn darparu ar gyfer lefel uwch barhaus balansau buddsoddiadau'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod yr Adroddiad Diweddar ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 1 Ebrill 2022 i 30 Medi 2022, gan gynnwys newidiadau i'r terfynau o ran cysylltiad â'r gyfradd log, yn cael ei gymeradwyo.

## **8. FFFIOEDD A THALIADAU CYN-YMGEISIO Y CORFF CYMERADWYO DRAENIO CYNALIADWY (SAB)**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i alluogi'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) i godi ffioedd, o dan adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, am gyngor ac arweiniad cyn ymgeisio, ynghylch proses ymgeisio'r SAB.

Cydnabuwyd y byddai cyflwyno cynllun codi tâl yn sicrhau bod y SAB yn gadarn ac yn wydn yn economaidd i reoli cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd statudol wrth symud ymlaen.

Rhoddwyd ystyriaeth i Reoliad 2A, Atodlen 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 2016, a atodir i'r adroddiad, a oedd yn nodi'r taliadau a fyddai'n cael eu cymhwyso gan y SAB. Nododd y Cabinet y byddai gweithredu'r cynllun codi tâl arfaethedig yn cynnig dull teg a thryloyw sy'n gyson â llawer o awdurdodau lleol eraill Cymru.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Bod y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) yn cael codi ffioedd am gyngor ac arweiniad cyn ymgeisio, ynghylch proses ymgeisio'r SAB.**

**8.2 Bod y ffioedd yn cael eu cymhwyso ar unwaith.**

## **9. AILDDOSBARTHU'R A476 CROSS HANDS**

Dywedwyd wrth y Cabinet fod Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands wedi ei chwblhau yn ddiweddar a'i bod yn darparu cyswllt mwy uniongyrchol rhwng Cefnffordd yn A48 yn Cross Hands a'r A476 i'r gogledd o bentref Gors-las.

Nododd y Cabinet y manteision a geir o ran lleihau tagfeydd, yn ogystal â hwyluso mynediad i safleoedd presennol a safleoedd a ddatblygir yn y dyfodol. Yn unol â hynny, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i ddynodi'r Ffordd Gyswllt Economaidd newydd yn rhan o'r A476 ac ailddosbarthu rhan o'r A476 bresennol drwy bentref Gors-las yn ffordd dosbarth B. Bydd yr ailddosbarthiad hwn yn galluogi gosod arwydd i'r llwybr tua'r gogledd o'r A48 ar hyd yr A476 i Landeilo o'r gyffordd aml-lefel i'r dwyrain o Cross Hands yn hytrach na drwy'r gylchfan bresennol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod ailddosbarthiad yr A476 yn cael ei gymeradwyo.

**10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD  
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**12. STRATEGAETH DERBYNIADAU CYFALAF**

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn tanseilio'n sylweddol fuddiannau masnachol y Cyngor mewn trafodaethau yn y dyfodol ac yn golygu y byddai perygl o ostyngiad mewn derbyniadau cyfalaf.

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a roddai ddiweddariad a chynigion manwl mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**12.1 Derbyn yr adroddiad.**

**12.2 Bod yr argymhellion, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.**

---

**CHAIR**

---

**DATE**